# CYFARWYDDYD TROSGLWYDDO STAFF AWDURDODAU CYMRU (PENSIYNAU) 2012

**1.** Mae Gweinidogion Cymru yn llunio'r Cyfarwyddyd hwn o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**1**).

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys i awdurdodau gwella Cymreig a chynghorau cymuned Cymru.

**Diffiniadau**

**3.** Yn y Cyfarwyddyd hwn:

(i) "awdurdodau gwella Cymreig" ("*Welsh improvement authorities*") yw'r rheini a bennir yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**2**);

(ii) mae unrhyw gyfeiriad at "awdurdod" ("*authority*") yn gyfeiriad at yr awdurdodau a'r cynghorau y mae'r Cyfarwyddyd hwn yn gymwys iddynt;

(iii) ystyr "y rheoliadau TUPE" ("*TUPE regulations*") yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(**3**) neu unrhyw reoliadau sy'n disodli'r rheoliadau hynny, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd;

(iv) mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Cyfarwyddyd hwn ac y mae'r ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y rheoliadau TUPE yr un ystyr yn y Cyfarwyddyd hwn ag sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y rheoliadau TUPE.

**Diogeliad pensiwn cyflogeion awdurdod pan fo darparu'r gwasanaethau wedi eu contractio allan**

**4.** Bydd paragraff 5 yn gymwys—

(i) pan fo awdurdod yn ymrwymo i gontract gyda pherson i ddarparu gwasanaethau, a

---

(**1**) 2003 p.26.

(**2**) 2009 mccc 2. Mae hyn yn golygu cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

(**3**) O.S. 2006/246 (fel y'i diwygiwyd gan OSau 2009/592 a 2010/93.

# THE WELSH AUTHORITIES STAFF TRANSFERS (PENSIONS) DIRECTION 2012

**1.**The Welsh Ministers make this Direction under section 101 of the Local Government Act 2003(**1**).

**Application**

**2.** This Direction applies to Welsh improvement authorities and community councils.

**Definitions**

**3.** In this Direction:

(i) "Welsh improvement authorities" ("*awdurdodau gwella Cymreig*") are those specified in section 1 of the Local Government (Wales) Measure 2009(**2**);

(ii) references to "authority" ("*awdurdod*") are to authorities and councils to which this Direction applies;

(iii) "The TUPE regulations" ("*rheoliadau TUPE*") means the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006(**3**) or any regulations replacing those regulations, as from time to time amended;

(iv) any expression which is also used in the TUPE regulations has in this Direction the meaning that it has in the TUPE regulations.

**Pension protection for authority employees where the provision of services are contracted-out**

**4.** Paragraph 5 applies where—

(i) an authority enters into a contract with a person for the provision of services, and

---

(**1**) 2003 c.26.

(**2**) 2009 nawm 2. This means county councils and county borough councils, National Park authorities and fire and rescue authorities.

(**3**) S.I. 2006/246 (amended by SIs 2009/592 and 2010/93).

(ii) pan fo'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu gan yr awdurdod a'u cyflawni gan gyflogeion yr awdurdod hwnnw, yn y cyfnod yn union cyn ymrwymo i'r contract.

**5.** Rhaid i'r contract ddarparu—

(i) ei bod yn ofynnol i'r contractwr sicrhau diogeliad pensiwn pob cyflogai sy'n trosglwyddo, a

(ii) bod modd i'r cyflogai sy'n trosglwyddo orfodi'r diogeliad pensiwn a ddarparwyd.

**6.** At ddibenion paragraff 5—

(i) ystyr "cyflogai sy'n trosglwyddo" ("*transferring employee*") yw cyflogai yn yr awdurdod y daw ei gontract cyflogaeth, yn rhinwedd cymhwyso'r rheoliadau TUPE mewn perthynas â'r hyn a wneir at ddibenion cyflawni'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractwr, yn gontract cyflogaeth gyda rhywun heblaw am yr awdurdod; a

(ii) mae "diogeliad pensiwn" ("*pension protection*") wedi ei sicrhau i'r cyflogai sy'n trosglwyddo os bydd gan y cyflogai, ar ôl y newid mewn cyflogwr, fel cyflogai i'r cyflogwr newydd, hawliau i gael buddiannau pensiwn a bod yr hawliau hynny—

(a) yr un peth â, neu

(b) yn cyfrif fel rhai sy'n cymharu'n fras â, neu sy'n well na,

hawliau a oedd gan y cyflogai fel cyflogai i'r awdurdod.

**<u>Diogeliad pensiwn cyflogeion awdurdod mewn perthynas â chontract dilynol i ddarparu gwasanaethau</u>**

**7.** Bydd paragraff 8 yn gymwys—

(i) pan fo awdurdod wedi ymrwymo i gontract gyda pherson ("y contractwr cyntaf") i ddarparu gwasanaethau,

(ii) pan fo cymhwyso'r rheoliadau TUPE neu Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981(**1**), mewn perthynas â'r hyn a wnaed at ddibenion cyflawni'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractwr cyntaf, yn golygu bod cyflogeion i'r awdurdod yn dod yn gyflogeion i rywun heblaw am yr awdurdod, a

(**1**) O.S. 1981/1794.



(ii) those services are, in the period immediately before the contract is entered into, provided by the authority and carried out by employees of that authority.

**5.** The contract must provide—

(i) that the contractor is required to secure pension protection for each transferring employee, and

(ii) that the pension protection provided is enforceable by the transferring employee.

**6.** For the purposes of paragraph 5—

(i) "transferring employee" ("*cyflogai sy'n trosglwyddo*") means an employee of the authority whose contract of employment becomes, by virtue of the application of the TUPE regulations in relation to what is done for the purposes of carrying out the contract between the authority and the contractor, a contract of employment with someone other than the authority; and

(ii) "pension protection" ("*diogeliad pensiwn*") is secured for the transferring employee if after that change in employer the employee has, as an employee of the new employer, rights to acquire pension benefits and those rights—

(a) are the same as, or

(b) count as being broadly comparable to or better than,

those that the employee had as an employee of the authority.

**<u>Pension protection for an employee of the authority in respect of a subsequent contract for the provision of services</u>**

**7.** Paragraph 8 applies where—

(i) an authority has contracted with a person ("the first contractor") for the provision of services,

(ii) the application of the TUPE regulations or the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981(**1**) in relation to what was done for the purposes of carrying out the contract between the authority and the first contractor resulted in employees of the authority becoming the employees of someone other than the authority, and

(**1**) S.I. 1981/1794.

(iii) pan fo'r awdurdod yn ymrwymo i gontract gyda pherson ("y contractwr dilynol") i ddarparu unrhyw un o'r gwasanaethau.

**8.** Rhaid i'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractwr dilynol ddarparu—

(i) ei bod yn ofynnol i'r contractwr dilynol sicrhau diogeliad pensiwn unrhyw gyflogeion gwreiddiol sy'n trosglwyddo; a

(ii) bod modd i'r cyflogai orfodi'r diogeliad pensiwn a ddarparwyd.

**9.** At ddibenion paragraff 8—

(i) ystyr "cyflogai gwreiddiol sy'n trosglwyddo" ("*transferring original employee*") yw cyflogai yn yr awdurdod—

(a) y daw ei gontract cyflogaeth, yn rhinwedd cymhwyso'r rheoliadau TUPE mewn perthynas â'r hyn a wneir at d dibenion cyflawni'r contract rhwng yr awdurdod a'r contractwr dilynol, yn gontract cyflogaeth gyda rhywun heblaw am yr awdurdod; a

(b) y daeth ei gontract cyflogaeth bob tro y cyflawnwyd contract yn y cyfamser, yn rhinwedd cymhwyso'r rheoliadau TUPE neu Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 mewn perthynas â'r hyn a wnaed at ddibenion cyflawni'r contract yn y cyfamser, yn gontract cyflogaeth gyda rhywun heblaw am y cyflogwr presennol;

(ii) mae "diogeliad pensiwn" ("*pension protection*") wedi ei sicrhau i'r cyflogai gwreiddiol sy'n trosglwyddo os bydd gan y cyflogai, ar ôl y newid mewn cyflogwr y cyfeirir ato yn is-baragraff (i)(a), fel cyflogai i'r cyflogwr newydd, hawliau i gael buddiannau pensiwn a bod yr hawliau hynny—

(a) yr un peth â, neu

(b) yn cyfrif fel rhai sy'n cymharu'n fras â, neu sy'n well na,

hawliau a oedd gan y cyflogai cyn newid cyflogwr.

**10.** At ddibenion paragraff 9(i)(b), ystyr "contract yn y cyfamser" ("*intervening contract*") yw contract gyda'r awdurdod i ddarparu'r gwasanaethau sydd i'w darparu o dan y contract gyda'r contractwr dilynol, ar



(iii) the authority is contracting with a person ("the subsequent contractor") for the provision of any of the services.

**8.** The contract between the authority and the subsequent contractor must provide—

(i) that the subsequent contractor is required to secure pension protection for any transferring original employees; and

(ii) that the pension protection provided is enforceable by the employee.

**9.** For the purposes of paragraph 8—

(i) "transferring original employee" ("*cyflogai gwreiddiol sy'n trosglwyddo*") means an employee of the authority—

(a) whose contract of employment becomes, by virtue of the application of the TUPE regulations in relation to what is done for the purposes of carrying out the contract between the authority and the subsequent contractor, a contract of employment with someone other than the authority; and

(b) whose contract of employment on each occasion when an intervening contract was carried out became, by virtue of the application of the TUPE regulations or the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981 in relation to what was done for the purposes of carrying out the intervening contract, a contract of employment with someone other than the existing employer;

(ii) "pension protection" ("*diogeliad pensiwn*") is secured for the transferring original employee if after the change in the employer referred to in sub-paragraph (i)(a) the employee has, as an employee of the new employer, rights to acquire pension benefits and those rights—

(a) are the same as, or

(b) count as being broadly comparable to or better than,

those that the employee had before that change of employer.

**10.** For the purposes of paragraph 9(i)(b) an "intervening contract" ("*contract yn y cyfamser*") means a contract with the authority for the provision, at times after they are provided under the contract with the first contractor and before they are provided under

adegau ar ôl iddynt gael eu darparu o dan gontract gyda'r contractwr cyntaf a chyn iddynt gael eu darparu o dan gontract gyda'r contractwr dilynol.

**Amseru**

**11.** Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 6 Mawrth 2012.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

4312



a contract with the subsequent contractor, of the services to be provided under the contract with the subsequent contractor.

**Timing**

**11.** This Direction takes effect from 6 March 2012.

Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers

Date

4312